



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Iechyd Rhyngwladol
International Health

Adroddiad Sganio a Dysgu Gorwelion Rhyngwladol

Addysg a gofal plentynod cynnar

Adroddiad 42, Rhagfyr 2022

Canolfan Gydwethredol Sefydliad
Iechyd y Byd ar Fuddsoddi
ar gyfer Iechyd a Llesiant



World Health Organization
Collaborating Centre on Investment
for Health and Well-being

Trosolwg

Dechreuwyd yr adroddiadau Sganio a Dysgu Gorwelion Rhyngwladol fel rhan o'r ymateb iechyd y cyhoedd i COVID-19, i gefnogi ymateb deinamig a mesurau adfer a chynllunio yng Nghymru. Mae'r adroddiadau'n amrywio o ran ffocws a chwmpas, yn dibynnu ar sefyllfa esblygol COVID-19 yn ogystal ag anghenion iechyd y cyhoedd/ polisi ar y pryd. Roedd yr adroddiadau'n canolbwyntio ar dystiolaeth ryngwladol, data, profiad, polisi a mesurau iechyd y cyhoedd, a dulliau pontio ac adfer wedi COVID-19. Cafodd dysgu a gwybodaeth eu casglu a'u syntheseiddio i ddeall ac archwilio atebion ar gyfer mynd i'r afael ag effeithiau parhaus iechyd, llesiant, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, a'r rhai sy'n dod i'r amlwg (niwed a manteision posibl) y pandemig.

Yng ngwanwyn 2022, ehangwyd cwmpas yr adroddiadau i gwmpasu pynciau iechyd y cyhoedd â blaenoriaeth, gan gynnwys ym meysydd gwella a hybu iechyd, diogelu iechyd, a gofal iechyd. Mae pynciau a chanfyddiadau'r adroddiad yn cyd-fynd â'r penderfyniadau a'r gwaith parhaus yn Llywodraeth Cymru, y GIG ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn helpu i'w llywio. Maent hefyd yn cael eu dosbarthu i rwydwaith ehangach o weithwyr iechyd proffesiynol (cyhoeddus) a phartneriaid yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae hyn yn rhan o ddull systematig ehangach Iechyd Cyhoeddus Cymru o gasglu gwybodaeth a throsi tystiolaeth yn bolisi ac ymarfer, gan gefnogi camau gweithredu cydlynol, cynhwysol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n bwrw ymlaen â gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a chynllun strategol Cymru iachach tuag at Gymru iachach, fwy cyfartal, cydnerth, ffyniannus sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

Ymwadiad: Mae'r adroddiadau'n rhoi crynodeb lefel uchel o'r hyn a ddysgwyd o brofiadau bywyd go iawn o wledydd dethol, ac o amrywiaeth o lenyddiaeth wyddonol a llwyd, gan gynnwys ffynonellau gwybodaeth i ganiatáu archwiliad pellach. Nid yw'r adroddiadau'n gynhwysfawr ac nid ydynt wedi'u hanelu at ddarparu adolygiad tystiolaeth, dadansoddiad neu sicrwydd ansawdd manwl, cadarn na thrylwyr. Eu bwriad yw cynnig cipolwg byr neu dystiolaeth, polisi ac arfer cyfredol, gan rannu enghreifftiau o wledydd perthnasol a chanllawiau ac egwyddorion allweddol cyrff rhyngwladol o fri.

Mewn ffocws:

 **Addysg a gofal plentyndod cynnar**

Cynnwys

Cipolwg: crynodeb o ddysgu rhyngwladol	3
Addysg a gofal plentyndod cynnar: trosolwg	5
Golwg ar Wlad	12

Cipolwg: crynodeb o ddysgu rhyngwladol

“...plant heddiw yw gweithwyr medrus yfory. Meddygon. Athrawon. Cyfreithwyr. Arweinwyr. Bydd eu cynhyrchiant yn hybu economïau yfory. Bydd eu gallu i gyfrannu yn siapio cymdeithasau yfory. Bydd yr hyn a wnawn yn awr i feithrin datblygiad eu hymennydd a'u potensial yn pennu eu dyfodol – a'n dyfodol ni.”
Anthony Lake, Cyfarwyddwr Gweithredol UNICEF¹

Addysg a gofal plentyndod cynnar

- ✚ Diffinnir addysg a gofal plentyndod cynnar (AGPC) fel **“unrhyw drefniant rheoleiddiedig sy'n darparu addysg a gofal i blant o'u genedigaeth hyd at oedran ysgol gynradd gorfodol”**
- ✚ Mae AGPC yn manteisio ar **gyfnod o ddatblygiad ymennydd cyfoethog i blant** a all **osod y sylfaen** ar gyfer iechyd a maeth da, dysgu a llwyddiant addysgol, dysgu cymdeithasol-emosïynol, a chynhyrchiant economaidd gydol oes
- ✚ Mae rôl AGPC yn aml yn dibynnu ar **hanes a thraddodiad** a gall gael ei phriodoli i **ddiwydiannu a newidiadau yn strwythur y teulu**; gyda gofal plant **yn dasg i aelodau benywaidd y teulu yn bennaf**
- ✚ Mae AGPC yn allweddol o fewn polisiau sy'n gyfeillgar i deuluoedd gyda'r potensial ar gyfer **“buddran triphlyg”** sef **datblygiad cadarnhaol plant, grymuso menywod a thwf economaidd**
- ✚ Ar draws y dirwedd bolisi, **ni ellir ystyried AGPC ar ei ben ei hun**
 - Argymhellir dull **“dwy genhedlaeth”** neu **dull sy'n canolbwyntio ar y teulu**
 - Mae cysylltiadau â **pholisiau absenoldeb rhiant a bwydo ar y fron** yn hollbwysig
- ✚ **Mae diffyg AGPC yn effeithio'n anghymesur ar fenywod** ac mae cynyddu mynediad i AGPC yn un mecanwaith ar gyfer **gwella cyflogaeth menywod**
- ✚ **Gall polisiau sy'n ystyriol o deuluoedd fod o fudd i fusnesau** drwy recriwtio, cadw a llesiant staff, cynyddu cynhyrchiant, a hyrwyddo enw da brand
- ✚ Mae pump **parth ansawdd** ar gyfer AGPC wedi'u nodi:
 1. **Mynediad**
 2. **Staff**
 3. **Cwricwlwm**
 4. **Monitro a gwerthuso**
 5. **Llywodraethu a chyllid**
- ✚ Mae rhai **grwpiau o blant yn llai tebygol o gael mynediad i AGPC**, gan gynnwys:
 - Plant â chyflyrau iechyd neu anabledau
 - Plant mudol
 - Plant gyda mamau yn y carchar
 - Plant o deuluoedd incwm is
- ✚ Yn gynyddol, **mae gwledydd yr OECD yn symud tuag at ddull integredig at AGPC**: y Weinyddiaeth Addysg sy'n gyfrifol am addysg a gofal plant
- ✚ Mae Llywodraeth Cymru **yn ariannu tair rhaglen AGPC**, gan gynllunio i fabwysiadu **dull integredig sy'n cysylltu addysg, datblygiad plentyndod, ac iechyd** gyda ffocws ar

¹ https://www.unicef.org/media/48886/file/UNICEF_Early_Moments_Matter_for_Every_Child-ENG.pdf

BCGP, cyrraedd plant mewn ardaloedd difreintiedig, cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg, a hwyluso cyflogaeth rhieni, yn enwedig ymhlith menywod:

1. Dechrau'n Deg i blant 0-3 oed
2. Cynnig Gofal Plant ar gyfer plant 3-4 oed
3. Addysg Gynnar i blant 3-4 oed

Golwg ar Wledydd

Estonia

- System gofal plant ac addysg gynnar integredig i blant **rhwng 18 mis a 7 oed**
- **Mae rhaglenni AGPC yn bodloni dangosyddion ansawdd lluosog** gan gynnwys presenoldeb uchel
- Mae polisïau yn ceisio **lleihau anghydraddoldebau mynediad**
- **Mae lleihau rhwystrau iaith** i blant sy'n siarad Rwsieg yn flaenoriaeth

Denmarc

- Mae AGPC wedi'i warantu i bob plentyn rhwng **26 wythnos tan oed ysgol yn 6 oed**
- **Mae chwarae plant yn rhan ganolog** o ddarpariaeth gofal plant Denmarc
- Caiff AGPC **ei ariannu gan y fwrdeistref a rhieni** drwy gymorthdaliadau ar sail incwm
- Mae gan Denmarc **nifer uchel yn manteisio ar AGPC a menywod mewn gwaith**

Sweden

- Mae Sweden yn dyrannu 32.1% o'i 627.4 biliwn CMC USD ar gyfer lles a gofal cymdeithasol; **mae 1.1% o CMC wedi'i dargedu at ofal plant i blant dan 3 oed**
- Mae gan Sweden **system gofal plant blynyddoedd cynnar cwbl integredig ar gyfer plant 1-6 oed**, a ddarperir gan fwrdeistrefi
- Mae AGPC wedi'i ariannu yn bennaf gan y **wladwriaeth**, gyda chyfraniad isel gan rieni
- **Mae gofal plant cyn ysgol i rieni di-waith** wedi cynyddu nifer y menywod mewn gwaith cyflogedig

Gweriniaeth Chile

- Mae *Chile Crece Contigo* yn **rhaglen amddiffyn cymdeithasol integredig** sy'n cynnwys gofal plant ochr yn ochr â gwasanaethau eraill i gefnogi datblygiad y blynyddoedd cynnar
- Mae'r rhaglen yn cynnig **gwasanaethau hygyrch i bawb i bob plentyn dan 5 oed**, gyda gwasanaethau arbenigol ar gyfer y cartrefi mwyaf agored i niwed
- **Mwy o bresenoldeb cyn-ysgol, manteision datblygiadol ac iechyd** yn ystod gwerthusiad rhaglen 10 mlynedd

Addysg a gofal plentyndod cynnar: trosolwg

Cyflwyniad

- Mae plentyndod cynnar yn cael ei ddiffinio fel y “cyfnod o genhedlu i ddechrau yn yr ysgol”²
- Mae addysg a gofal plentyndod cynnar (AGPC) yn cael ei ddiffinio fel “*unrhyw drefniant a reoleiddir sy'n darparu addysg a gofal i blant o'u geni hyd at oedran ysgol gynradd gorfodol*”³
- Mae gofal plant blynyddoedd cynnar (GPBC) yn aml yn cael ei gynnwys o fewn rhaglenni AGPC integredig
- Mae AGPC yn manteisio ar **gyfnod o ddatblygiad ymennydd cyfoethog i blant**, a all osod y **sylyfaen ar gyfer** iechyd a maeth da, dysgu a llwyddiant addysgol, dysgu cymdeithasol-emosiynol, a chynhyrchiant economaidd gydol oes⁴
- Mae nod Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig (CU) **(SDG) 4.2 yn ymrwymo gwledydd i “sichrau bod pob merch a bachgen yn cael mynediad at ddatblygiad plentyndod cynnar, gofal ac addysg cyn-gynradd o safon fel eu bod yn barod ar gyfer addysg gynradd”** erbyn 2030⁵
- Mae rôl yr **AGPC yn dibynnu ar hanes a thraddodiad**, er enghraifft:
 - ✓ Gellir ei briodoli yn rhannol i **ddiwydiannu a newidiadau yn strwythur y teulu**, ee llai o deuluoedd estynedig, gostyngiad yn y gyfradd genedigaethau, mwy o deuluoedd un rhiant; a'r angen canlyniadol am ofal rhiant ychwanegol ar gyfer cymdeithasoli ac addysg plant⁶
 - ✓ Mae gofal plant yn **dasg i fenywod fewn y teulu yn bennaf mewn llawer o wledydd, fel Japan, gan arwain at wasanaethau gofal plant ffurfiol llai mynych, prinder gofal plant, a “phlant ar y rhestr aros”⁷**; ac yn gofyn am ddulliau newydd, megis cydnabyddiaeth ffurfiol (absenoldeb rhiant) i neiniau a theidiau⁸.

AGPC ac BCGP fel rhan o bolisiau allweddol sy'n ystyriol o deuluoedd, gan gynnwys:⁹

- **Absenoldeb â thâl** - mamolaeth, tadolaeth, rhiant, ac absenoldeb i ofalu am blant ifanc sâl
- **Budd-daliadau plant a pholisïau cyflog isafswm/teg** polisïau
- **Polisïau bwydo ar y fron**
- Mae **“Menter Polisïau sy'n Gyfeillgar i Deuluoedd”** yn cysoni ymrwymïadau gwaith a theulu ac yn hyrwyddo datblygiad a llesiant plant¹⁰
- Cyfeirir ato fel **dulliau “dwylly genhedlaeth”** gyda photensial ar gyfer **“buddran triphlyg”**:¹¹
 - 1) **datblygiad cadarnhaol plant ifanc,**
 - 2) **grymuso menywod, a**

² [Early Childhood Development in the UNICEF Strategic Plan 2018-2021.pdf](#)

³ [Early childhood education and care initiatives | European Education Area \(europa.eu\)](#)

⁴ Yr hyn svdd angen i chi ei wvbod am ofal ac addysg plentyndod cynnar | UNESCO

⁵ 4.2 erbyn 2030 yn sichrau bod pob merch a bachgen yn cael mynediad at ddatblygiad plentyndod cynnar, gofal ac addysg cyn-gynradd o safon fel eu bod yn barod ar gyfer addysg gynradd” - Dangosyddion a Fframwaith Monitro

⁶ <https://files.eric.ed.gov/fulltext/ED472359.pdf>

⁷ Gwleidyddiaeth ddiwylliannol darpariaeth gofal plant mewn cyfnod pan mae Japan yn crebachu

⁸ <https://www.japantimes.co.jp/news/2022/10/10/national/grandchildren-care-leave/>

⁹ Ailgvnllunio'r gweithle i fod yn gyfeillgar i deuluoedd: Yr hyn v gall llwodraethau a busnesau ei wneud | UNICEF

¹⁰ Polisïau Cyfeillgar i Deuluoedd: Handbook for Business.pdf (unicef.org)

¹¹ UNICEF-Childcare -Family-Friendly-Policies-2019.pdf

3) thwf economaidd

1) Datblygiad cadarnhaol plant

- Mae AGPC yn darparu seilwaith cymdeithasol mawr i gefnogi **cynhwysiant, tegwch a symudedd cymdeithasol**¹²
- Gall AGPC fod yn ffynhonnell ysgogiad ymatebol i **feithrin datblygiad gwybyddol ac iaith, cymhwysedd cymdeithasol, a datblygiad emosiynol**¹
- Mae cyfranogwyr mewn rhaglenni chwarae a chyfathrebu rhyngweithiol yn dangos **gwell sgorau datblygiad gwybyddol, iaith, echddygol a chymdeithasol-emosiynol** na phlant mewn grŵp rheoli yn un oed¹
- **Mae BCGP o ansawdd uchel** wedi dangos **effeithiau cadarnhaol sylweddol ar gyfer plant difreintiedig a phlant ifanc iawn**¹³, er enghraifft, mae'r Prosiect Abecedarian yn yr Unol Daleithiau wedi dangos effeithiau cadarnhaol ar: ddatblygiad ar ôl 18 mis; cyrhaeddiad mewn darllen a mathemateg drwy'r ysgol; gwneud penderfyniadau; a llai o ymddygiad troseddol oedolion

2) Grymuso menywod

- **Mae diffyg BCGP yn effeithio'n anghymesur ar fenywod**, gan fod cyfrifoldebau gofal plant yn aml yn peryglu grymuso economaidd menywod¹¹
- **Gofal di-dâl** yw'r ffactor sylfaenol hynny **sy'n atal menywod rhag ymuno â'r gweithlu**^{10,14}
- Cymerodd 46% o fenywod 15+ oed, o gymharu â 72% o ddyfynion, yn fyd-eang ran yn y gweithlu yn 2021¹⁵
- **Gall polisiâu gofal plant ac absenoldeb rhiant gael effaith sylweddol**, er enghraifft, mae America Ladin wedi cael cynnydd sylweddol mewn cyfranogiad gweithlu menywod¹⁶
- **Mae COVID-19 wedi cael effaith wahaniaethol ar fenywod sy'n gweithio** lle nad oedd gofal plant ar gael mwyach a menywod yn cymryd gofal plant yn anghymesur, er enghraifft:^{17,18}
 - ✓ Yn yr Almaen, effeithiwyd yn fwy ar famau na thadau, hyd yn oed mewn cyplau lle'r oedd gan y ddau bartner bwysau gwaith tebyg
 - ✓ Roedd rhai menywod yn yr Eidal, er eu bod yn gallu cymryd absenoldeb rhiant â thâl, mewn perygl o golli eu swydd
 - ✓ Nodwyd canlyniadau cadarnhaol hefyd, megis treulio mwy o amser gyda'i gilydd fel teulu; a mwy o gyfranogiad tadau ym mywydau plant ifanc
- **Mae ymatebion polisi i ychwanegu at gyflogaeth menywod** yn cynnwys:
 - ✓ **Cefnogaeth i famau sy'n bwydo ar y fron**¹⁰
 - ✓ **Datblygu/ehangu gofal plant â chymhorthdal**¹¹ - cynyddu cyfraddau cyflogaeth menywod a nifer yr oriau a weithir; gydag effaith arbennig mewn meysydd o gyfranogiad isel o fenywod yn y gweithlu

¹² <https://op.europa.eu/en/publication-detail/-/publication/4c526047-6f3c-11eb-aeb5-01aa75ed71a1/language-en/format-PDF/source-276830736>

¹³ <https://openknowledge.worldbank.org/bitstream/handle/10986/35062/Better-Jobs-and-Brighter-Futures-Investing-in-Childcare-to-Build-Human-Capital.pdf?sequence=5&isAllowed=y>

¹⁴ https://www.ilo.org/wcmsp5/groups/public/-/dgreports/-/dcomm/-/publ/documents/publication/wcms_633135.pdf

¹⁵ <https://data.worldbank.org/indicator/SL.TLF.CACT.MA.ZS>

¹⁶ <https://www.imf.org/en/Publications/WP/Issues/2017/02/14/Women-at-Work-in-Latin-America-and-the-Caribbean-44662>

¹⁷ [Early childhood education and care and the Covid-19 pandemic - Publications Office of the EU \(europa.eu\)](https://ec.europa.eu/eurostat/tgm/table.do?tab=table&init=1&language=en&code=sdg_4_4.2)

¹⁸ [Governing quality early childhood education and care in a global crisis - Publications Office of the EU \(europa.eu\)](https://ec.europa.eu/eurostat/tgm/table.do?tab=table&init=1&language=en&code=sdg_4_4.2)

Astudiaeth achos: Twrci¹⁰

Gofynnodd gweithwyr ffatri gwrywaidd i'w cyflogwr ddarparu cymhorthdal gofal plant i'r holl staff yr oedd eu plant wedi'u cofrestru mewn cyn-ysgol/meithrinfa ac yr oedd eu priod mewn cyflogaeth ffurfiol. Trefnwyd cymhorthdal misol o 200 lira Twrciaidd ar gyfer pob plentyn 3-6 oed. Darparodd hyn **ddatrysiad effeithlon i hybu cyflogaeth menywod.**

Astudiaeth achos: Bangladesh¹⁹

Mae rhaglen Mothers@Work UNICEF, a lanswyd yn 2017, yn cefnogi polisïau ac arferion cymorth bwydo ar y fron mewn ffatrioedd dillad gan gynnwys darparu manau bwydo ar y fron, darpariaeth gofal plant, a diogelu cyflogaeth. Mae'r rhaglen wedi ehangu i 92 o ffatrioedd (gan gyrraedd 160,000 o fenywod). Mae canlyniadau yn dangos **cynhyrchedd cynyddol**, a **chynnydd mewn bwydo ar y fron yn unig o 12% i 17%.**

3) Twf economaidd

Mae gofal plant fforddiadwy o safon yn cyfrannu at dwf economaidd, gydag amcangyfrifon yn dangos:¹¹

- Cynnydd mewn Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) gyda mwy o fenywod yn y gweithlu
- 7% o elw ar fuddsoddiad i gymdeithas drwy fanteision gwell datblygiad plentynod cynnar

Astudiaeth achos: Bangladesh¹⁹

Canfu arolwg yn 2019 ym Mangladesh fod 23% o 306 o gwmnïau yn darparu gofal plant. O'r cwmnïau a oedd yn cynnig gofal plant:

- Adroddodd 51% **well proffidioldeb**
- Roedd 56% yn cytuno **bod atebion gofal plant yn symud gyrfaoedd menywod ymlaen**
- Roedd 65% yn cytuno ei fod yn **hwyluso caffael talent**

Astudiaeth achos: Fietnam²⁰

Mae ffatri'n cynnig meithrinfa, lwfans gofal plant misol, a llety â chymhorthdal ar y safle. Mae'r manteision hyn **yn helpu recriwtio, yn cynyddu cyfraddau cadw gweithwyr, a gwella enw da brand.**

Sicrhau AGPC o ansawdd uchel^{13,21}

- Manylion fframwaith ansawdd AGPC Ewropeaidd **pum parth ansawdd** (Tabl 1)
- **Gall AGPC o ansawdd isel arwain at niferoedd isel** gan nad yw rhieni yn ymddiried yn y gwasanaeth nac yn ei werthfawrogi
- Mae'n bosibl na fydd buddion posibl BCGP yn cael eu gwireddu mewn gwasanaethau o ansawdd isel
- Gall rhieni fantoli'r costau (ariannol ac arall), diogelwch, ac ysgogiad mynychu BCGP yn erbyn gofalu am eu plentyn gartref

Tabl 1 Datganiadau ansawdd AGPC gydag enghreifftiau o wledydd dethol²¹

Parth ansawdd	Datganiadau ansawdd	Enghreifftiau gwlad
Mynediad	<ul style="list-style-type: none">• Darpariaeth sydd ar gael ac yn fforddiadwy i bob teulu a'u plant• Darpariaeth sydd yn annog cyfranogiad, cryfhau cynhwysiant cymdeithasol ac yn croesawu amrywiaeth	Romania: Cyflwynwyd menter Cronfa Gymdeithasol Ewrop (2018-20) i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol AGPC i blant ag anghenion addysgol arbennig; plant o'r gymuned Roma; plant o gymunedau gwledig a difreintiedig; a phlant o grwpiau agored i niwed

¹⁹ <https://documents1.worldbank.org/curated/en/867371582283308546/pdf/Tackling-Childcare-The-Business-Benefits-and-Challenges-of-Employer-Supported-Childcare-in-Bangladesh.pdf>

²⁰ [Final IFC Childcare Vietnam Web.pdf](#)

²¹ [Pecyn cymorth ar gyfer addysg a gofal plentynod cynnar cynhwysol - Swyddfa Cyhoeddiadau'r UE \(europa.eu\)](#)


Staff	<ul style="list-style-type: none"> • Staff â chymwysterau da gyda hyfforddiant cychwynnol a pharhaus sy'n eu galluogi i gyflawni eu rôl broffesiynol • Amodau gwaith cefnogol gan gynnwys arweinyddiaeth broffesiynol sy'n creu cyfleoedd ar gyfer arsylwi, myfyrio, cynllunio, gwaith tîm a chydweithio â rhieni 	Iwerddon: Cyflwyno menter y llywodraeth "Better Start" yn 2014, a gwasanaeth cymorth blynyddoedd cynnar cenedlaethol sy'n darparu cyngor, mentora a hyfforddiant i ymarferwyr
Cwricwlwm	<ul style="list-style-type: none"> • Cwricwlwm sy'n seiliedig ar nodau, gwerthoedd a dulliau pedagogaidd sy'n galluogi plant i gyrraedd eu llawn botensial mynd i'r afael â'u datblygiad cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol a chorfforol, a'u llesiant • Cwricwlwm sy'n gofyn i staff gydweithio â phlant, cydweithwyr a rhieni ac i fyfyrion ar eu harfer eu hunain 	Portiwgal: Diweddarwyd canllawiau cwricwlwm yn 2016, i gynnwys meysydd dysgu: 1. Datblygiad personol a chymdeithasol 2. Mynegiant a chyfathrebu: addysg gorfforol, addysg celf, iaith lafar a llythrennedd, mathemateg, gwybodaeth am y byd, parhad addysgol a thrawsnewid
Monitro a gwerthuso	<ul style="list-style-type: none"> • Mae monitro a gwerthuso yn cynhyrchu gwybodaeth ar y lefel leol, ranbarthol a/neu genedlaethol berthnasol i gefnogi gwelliannau parhaus yn ansawdd polisi ac ymarfer • Monitro a gwerthuso sydd er pennaf les y plentyn 	Sbaen: Mae'r Weinyddiaeth Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol yn cyhoeddi ystadegau blynyddol fesul lefel addysgol gan gynnwys y blynyddoedd cynnar a myfyrwyr ag anghenion cymorth addysgol penodol
Llywodraethu a chyllid	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan randdeiliaid ddealltwriaeth glir a rennir o'u rôl a'u cyfrifoldebau, ac yn gwybod bod disgwyl iddynt gydweithio â sefydliadau partner • Mae deddfwriaeth, rheoleiddio a/neu gyllid yn cefnogi cynnydd tuag at hawl gyffredinol i addysg a gofal plentyndod cynnar fforddiadwy o ansawdd uchel, a chaiff cynnydd ei adrodd yn rheolaidd i randdeiliaid perthnasol. 	Cyprus: Mae'r llywodraeth yn darparu cymhorthdal tuag at dreuliau ar gyfer ysgolion meithrin cymunedol (yn weithredol pan nad yw'r dosbarthiadau meithrin cyhoeddus yn diwallu anghenion plant tair i bedair oed ac wyth mis). Mae rhieni'n talu'r costau sy'n weddill o ran gweithredu'r ysgolion hyn. Mae ffioedd presenoldeb ar gyfer ysgolion cymunedol yn llawer is na ffioedd ysgolion preifat

Mynediad teg

- **Gall plant mewn teuluoedd incwm isel** fod mewn perygl arbennig o gael eu hamddifadu o fynediad at wasanaethau hanfodol (*Ffigur 1*)²⁰
- Mae rhai plant yn llai tebygol o fynychu AGPC (*Tabl 2*)²¹
- Yn fyd-eang, **mae AGPC yn aml yn cael blaenoriaeth isel mewn polisi a buddsoddiad addysg**; gall grwpiau ymylol gael eu heithrio²²

²² Yr hyn sydd angen i chi ei wybod am ofal ac addysg plentyndod cynnar | UNESCO

Ffigur 1. Gwahaniaethau mewn dysgu cynnar yn seiliedig ar gyfoeth: canran y plant 3-5 oed nad ydynt yn mynychu AGPC yn ôl cwintel cyfoeth. Gwledydd a ddewiswyd lle mae presenoldeb cyffredinol yn llai na 40%. Ffynhonnell UNICEF (Ffigur heb fod ar gael yn Gymraeg)¹



Tabl 2 Grwpiau wedi'u nodi â rhwystrau ychwanegol i gael mynediad at AGPC yn Ewrop²¹

Grŵp a amlygwyd	Rhwystrau
Plant â chyflyrau iechyd	– Effaith negyddol sylweddol ar bresenoldeb yn uniongyrchol oherwydd salwch, neu'r angen i aros gartref/ysbyty am gyfnodau hir o amser
Pobl ag anableddau	– Gall AGPC fod yn arbennig o fuddiol i blant ag anableddau gan ei fod yn darparu gwasanaethau/strwythurau i nodi a chefnogi oedi ac anableddau datblygiadol ✓ Yn Ffrainc yn 2018, dim ond eu rhieni oedd yn gofalu am 54% o blant ag anableddau (o gymharu â 32% o blant nad ydynt yn anabl)
Plant o gefndiroedd mudol	– Amrywiad ar draws Ewrop; rhwystrau ieithyddol a diwylliannol yn aml – Mae AGPC ar gyfer plant ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn aml yn ddiffygiol mewn canolfannau derbyn
Plant gyda mamau yn y carchar	– Mae polisïau'n amrywio, ond gall byw mewn carchar achosi rhwystrau ychwanegol – Gall plant sy'n byw yn y carchar gyda'u rhiant, eu mam yn aml, ddioddef oherwydd caethiwed, diffyg gofod, diffyg ysgogiadau gweledol, arogleuol a chlywedol a all ddylanwadu ar ddatblygiad plentyn.
COVID-19	– Yn ystod cyfnodau clo, arhosodd llawer o gyfleusterau AGPC ar gau neu'n rhannol agored

Agwedd ryngwladol at BCGP

- Cafodd polisïau 41 o wledydd incwm uchel ar draws y meysydd **absenoldeb rhiant, a mynediad at ofal plant, ansawdd, a fforddiadwyedd** eu cymharu gan UNICEF (*Atodiad 1*)²³

²³ [where-do-rich-countries-stand-on-childcare.pdf \(unicef-irc.org\)](https://www.unicef-irc.org/reports-and-publications/where-do-rich-countries-stand-on-childcare.pdf)

- Yn gynyddol, mae gwledydd wedi datblygu **system integredig**, lle mai un awdurdod arweiniol sy'n gyfrifol am weinyddu'r holl wasanaethau AGPC (Tabl 3)²⁴

Mae'r **Cipolwg ar Wledydd** a ddewiswyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn darparu enghreifftiau o bolisiau BCGP effeithiol a/neu arloesol, gan gynnwys:

- Mae gwledydd dethol yn cael eu graddio'n uchel gan UNICEF (Atodiad 1)²³
- Mae Estonia a Denmarc wedi datblygu rhaglenni a pholisiau blynyddoedd cynnar sy'n integreiddio systemau gofal plant, addysg a iechyd
- Yn ddiweddar, bu rhaglen AGPC Chile yn destun proses werthuso 10 mlynedd²⁵

Tabl 3. Trefniadaeth AGPC mewn gwledydd OECD²⁴

Cyfrifoldeb	Gwledydd
Y Weinyddiaeth Addysg sy'n gyfrifol am y system AGPC gyfan	Awstralia, Brasil, Chile, Costa Rica, Estonia, Lloegr, y Ffindir, Hwngari, Gwlad yr Iâ, Latfia, Lithwania, Lwcsembwrg, Seland Newydd, Gogledd Iwerddon, Norwy, Yr Alban, Slofenia, Sbaen, Sweden
Y Weinyddiaeth Addysg sy'n gyfrifol am addysg cyn-gynradd Awdurdodau eraill (ee, Gweinyddiaethau Iechyd a Lles, Llafur, Materion Cymdeithasol) sy'n gyfrifol am AGPC ar gyfer plant iau a gwasanaethau eraill	Gwlad Belg, Gweriniaeth Tsiec, Ffrainc, yr Eidal, Korea, yr Iseldiroedd, Portiwgal, Gwlad Pwyl, Gweriniaeth Slofacia, y Swistir
Awdurdodau gwahanol sy'n gyfrifol am wahanol gydrannau o'r system AGPC	Awstria, Canada, Colombia, Denmarc, yr Almaen, Iwerddon, Japan, Mecsico, Unol Daleithiau America

BCGP yng Nghymru

- Mae gofal plant blynyddoedd cynnar yn y portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; ac yn bendol mae'n gyfrifoldeb y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol yn benodol
- Mae tair rhaglen blynyddoedd cynnar a ariennir gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru (Tabl 4).
- Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mabwysiadu dull AGPC ar gyfer plant 0-5 oed trwy greu **un system sengl yn cysylltu addysg, datblygiad plentyndod, ac iechyd gyda phwyslais ar yr BCGP**.
- Bydd ehangu cychwynnol yn canolbwyntio ar **gyrraedd plant mewn ardaloedd difreintiedig a chynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg²⁶**
- Mae'r polisi hefyd yn anelu at **hwyluso cyflogaeth rhieni**, yn enwedig ymhlith menywod²⁷

²⁴ Sut mae systemau addysg plentyndod cynnar yn wahanol ledled y byd? | Education at a Glance 2019 : OECD Indicators | OECD iLibrary (oecd-ilibrary.org)

²⁵ <https://docs.iza.org/dp11847.pdf>

²⁶ <https://gov.wales/phased-expansion-early-years-provision#:~:text=The%20Childcare%20Offer%20for%20Wales,parents%20in%20education%20and%20training.>

²⁷ <https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/chwalu-y-rhwystrau-gofal-plant-a-cyflogaeth-rhieni/>

Tabl 4 AGPC a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Rhaglen	Nodau'r polisi	Cymhwyster	Model cyflwyno
Dechrau'n Deg²⁸	<ul style="list-style-type: none"> - Mae plant yn iach ac yn ffynnu - Mae teuluoedd yn alluog ac yn ymdopi 	<ul style="list-style-type: none"> - Plant 2-3 oed yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig - Cymhwysedd yn cael ei ehangu ers Medi 2022 - Uchelgais i ymestyn i bob plentyn 2-3 oed 	<p>Cefnogaeth amlasiantaethol, cyfannol trwy:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Gofal plant o ansawdd uchel (12.5 awr yr wythnos am 39 wythnos y flwyddyn) 2. Gwasanaeth ymwelwyr iechyd gwell 3. Rhaglenni a chymorth rhianta 4. Cymorth datblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu
Cynnig Gofal Plant^{29,30}	<ul style="list-style-type: none"> - Galluogi rhieni, yn enwedig mamau, i ddychwelyd i'r gwaith - Cynyddu incwm gwario'r rhai sy'n gweithio - Annog datblygiad plant a pharodwydd ar gyfer yr ysgol 	<ul style="list-style-type: none"> - Plant 3-4 oed - Mae'r ddau riant yn gweithio ac yn ennill dim mwy na £100,000 y flwyddyn - Cynllun i ymestyn i rieni mewn addysg amser llawn neu ar gyrion gwaith 	<ul style="list-style-type: none"> - 30 awr/wythnos o addysg/gofal plant, a mynediad i ddarpariaeth sector preifat - Darpariaeth benodol i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol
Addysg Gynnar³¹	<ul style="list-style-type: none"> - Datblygiad cyffredinol - Dysgu trwy chwarae 	<ul style="list-style-type: none"> - Plant 3-4 oed - Cyffredinol 	<ul style="list-style-type: none"> - 10 awr yr wythnos yn ystod y tymor - Amrywiad fesul awdurdod lleol

²⁸ [Dechrau'n Deg wedi'i ehangu yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#)

²⁹ [Gwerthusiad o Flwyddyn 4 y Cynnig Gofal Plant \(llw.cymru\)](#)

³⁰ <https://gov.wales/written-statement-expansion-childcare-offer-wales#:~:text=In%20our%20Programme%20for%20Government%20we%20committed%20to,increase%20economic%20growth%2C%20tackle%20poverty%20and%20reduce%20inequalities>

³¹ <https://gov.wales/get-30-hours-childcare-3-a-4-year-old/early-education>

Golwg ar Wlad

Estonia

Trosolwg

- Enillodd Estonia, gweriniaeth seneddol o 1.3 miliwn o bobl, annibyniaeth o'r Undeb Sofietaidd ym 1991.³²
- Mae mewn safle ffafriol o'i chymharu â'r DU o ran anghydraddoldebau incwm a chyfradd tlodi plant (*Atodiad 2*)^{33,34}
- Mae Estonia yn gweithio tuag at **system lles cymdeithasol gref**, gyda diwygio systemau addysg, gofal ac iechyd³⁵
- Mae **Deddf Amddiffyn Plant 2014 yn hyrwyddo datblygiad a chefnogaeth plant**.³⁵
 - ✓ Pennaf les y plant yw'r brif ystyriaeth
 - ✓ Gwella ansawdd bywyd plant

Cefnogaeth i blant ifanc a theuluoedd

Mae Estonia yn cynnig **polisiau helaeth a gefnogir yn dda**, gan gynnwys:^{36,37}

- **Cwmpas iechyd cynhwysfawr cyffredinol** gan gynnwys menywod beichiog a phlant hyd at 19 oed
- Yr **absenoldeb mamolaeth â thâl llawn hiraf**: 140 diwrnod o absenoldeb mamolaeth â thâl/30 diwrnod o absenoldeb tadolaeth â thâl; a thua 18 mis o absenoldeb rhiant â thâl y gellir ei ddefnyddio gan y naill riant neu'r llall, un riant ar y tro, nes bod y plentyn yn dair oed.
- **Cymorth ariannol**: lwfans geni, a lwfans misol parhaus fesul plentyn sydd wedi cofrestru mewn addysg/hyfforddiant
- **Gwiriadau parodrwydd ysgol** cyn cofrestru mewn ysgol gynradd (6-7 oed); gellir cyfeirio plant am gymorth iechyd neu ddatblygiad

Model darparu AGPC

- Oherwydd y polisi absenoldeb rhiant helaeth, mae plant yn aml yn cael gofal gartref tan ddeunaw mis ac ar ôl hynny mae'n rhaid i lywodraethau lleol ddarparu lle gofal plant cyhoeddus³⁶
- Mae'r **system gofal plant ac addysg gynnar integredig** o dan awdurdod y Weinyddiaeth Addysg ac Ymchwil ac mae ganddi ddau brif strwythur.³⁸
 - ✓ *Lapsehoiuteenus*: canolfannau gofal plant
 - ✓ *Koolieelne lasteasutus*: sefydliadau gofal dydd integredig ac addysg cyn-gynradd ar gyfer plant rhwng deunaw mis a 7 oed
- **Mae gan lywodraethau lleol hyblygrwydd** yn y modd y maent yn trefnu rhaglenni AGPC i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd^{39,40}

³² Proffil ystadegol gwlad: Estonia 2022/4 | Proffiliau ystadegol gwledydd: OECD Indicators | OECD iLibrary (oecd-ilibrary.org)

³³ <https://data.oecd.org/inequality/poverty-rate.htm#indicator-chart>

³⁴ <https://data.oecd.org/inequality/income-inequality.htm#indicator-chart>

³⁵ [Integrated-Early-Years-Systems.pdf \(wcp.org.uk\)](https://www.wcp.org.uk/integrated-early-years-systems.pdf)

³⁶ Estonia - NCEE

³⁷ [CASE STUDY Estonia - Latest.pdf \(weps.org\)](https://www.weps.org/case-study/estonia-latest.pdf)

³⁸ The context of early learning in Estonia | Early Learning and Child Well-being in Estonia | OECD iLibrary (oecd-ilibrary.org)

³⁹ Addysg Plentynod Cynnar Cynhwysol: Dadansoddiad o 32 o enghreifftiau Ewropeaidd (european-agency.org)

⁴⁰ <https://www.oecd-ilibrary.org/docserver/15009dbee-en.pdf?expires=1669826209&id=id&accname=ocid53026503&checksum=694E09F9A60AE7D893B05D50E10EA41B>

- Dim ond nifer fach o blant sy'n cael eu gwasanaethu gan ddarparwyr preifat, sy'n codi ffioedd uwch³⁶
- **Mae cyfraddau cyfranogiad plant dan dair oed yn is** na chyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd (UE), o bosibl oherwydd y polisi absenoldeb rhiant⁴⁰
